# Cenn@d

MAWRTH 26 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 213


## Ymateb i argyfwng digartrefedd

Fel rhywun oedd wedi treulio dros 20 mlynedd ym maes lletygarwch yn gosod eiddo hunanddarpar i ymwelwyr, bu'n rhaid i ninnau gau ein drysau pan ddaeth y pandemig bum mlynedd yn ôl. Ond gan fod ein busnes wedi ei gofrestru gan y Cyngor Sir, ychydig ddyddiau ar ôl cyhoeddi'r clo mawr, daeth neges SOS gan Gyngor Gwynedd yn dweud eu bod yn chwilio am 'lety mewn argyfwng'. Roedd angen llety ar gyfer gweithwyr allweddol yn ogystal â'r rhai oedd yn byw mewn safleoedd carafannau hamdden yn y sir, gan fod y rheini hefyd wedi gorfod cau. Fe wnaethon ni ymateb yn gadarnhaol ar y pryd, a dros gyfnod o flwyddyn gwelsom nifer o bobl yn mynd a dod – pobl oedd wedi bod yn byw ym mharc gwyliau Hafan y Môr wrth ein hymyl, trydanwyr yn dod i wneud gwaith cynnal a chadw, nyrsys yn 'cysgodi' a gofalwyr yn y gymuned oedd wedi dod o'r tu allan i'r sir i helpu oherwydd y galw.

Pan ddaeth cyfnod y clo i ben, cysylltodd y Cyngor Sir eto gan ddweud bod ganddynt deuluoedd digartref oedd angen llety am rai wythnosau, tra oedd y Cyngor yn cael hyd i eiddo newydd iddynt ar gyfer y tymor hir. Dros y pedair blynedd diwethaf, gwelsom deuluoedd yn mynd ac yn dod o'r tri eiddo sydd gennym i'r pwrpas yma, a bron yn ddieithriad, wrth i un teulu adael, byddai teulu arall yn cyrraedd y diwrnod wedyn.

Efallai ein bod dan yr argraff mai pobl wedi colli eu cartrefi am beidio talu rhent yw'r rhelyw o'r rhain. Ond dros y blynyddoedd daethom i sylweddoli bod yna gymaint o resymau gwahanol pam yr oedd teuluoedd yn eu cael eu hunain heb do uwch eu pennau. Weithiau, mae'r argyfwng oherwydd trychineb ar yr aelwyd, yn sgil tân, neu ddifrod oherwydd llifogydd. Gwelsom bobl yn cyrraedd acw wedi i'r Cyngor ddod o hyd i asbestos yn eu tai, neu beryglon eraill allai effeithio ar iechyd y deiliaid. Weithiau, mae landlord yn penderfynu ymddeol a gwerthu'r eiddo, neu fod y Cyngor wedi canfod nad oedd yr eiddo'n cydymffurfio â safonau iechyd a diogelwch. Oherwydd prinder eiddo dros dro, ar adegau bu'n rhaid gwahanu teuluoedd i ystafelloedd gwely a brecwast, gydag un rhiant a'r plant mewn un tŷ, a'r rhiant arall mewn eiddo gwahanol.

Gwelsom bobl yn cyraedd acw dan amgylchiadau gwahanol hefyd. Weithiau, mae mam a'i phlant yn dianc o aelwyd dreisgar



Llun: Ben White @benwhitephotography, Unsplash

ac yn chwilio am loches. Dro arall, bydd gan rai broblemau iechyd meddwl sy'n golygu eu bod wedi methu gofalu amdanynt eu hunain a thalu'r rhent. Yn aml gwelsom deuluoedd yn cyraedd mewn tacsi, a'u holl eiddo ym mŵt y car. Mae bob amser yn ddirdynnol gweld plant yn cyrraedd lle dieithr, eu holl eiddo mewn bag bin du, yn wynebu ysgol newydd, ac wedi gorfod gadael eu ffrindiau wrth adleoli. Golygfa gyfarwydd oedd gweld rhieni, pedwar o blant a'u hanifeiliaid anwes yn cyrraedd un o'n tai – cŵn, cathod a chwningod, i gyd yn dod yn eu tro. Yn ôl ystadegau'r Cynghorau Sir, mae'r pwysau ar yr adrannau digartrefedd yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, gyda mewnfudwyr a ffoaduriaid yn ychwanegu at y galw am gartref a lloches.

Da oedd darllen yr erthygl isod ym Mwletin Polisi diweddaraf Cytûn, a diolchwn am waith Housing Justice Cymru yn y maes hwn.

Tybed oes gennym fel capeli ac eglwysi eiddo y gellid ei addasu a'i ddefnyddio i bwrpas lleihau digartrefedd? Yn naturiol, mae angen eiddo sydd wedi ei ddodrefnu'n llawn gan fod y sawl sydd angen llety mewn argyfwng fel arfer angen cartref lle mae pob dim yn ei le yn barod. Efallai fod hyn hefyd yn gyfle i ni fod yn fwy effro i'r realiti fod cynifer o bobl heb le parhaol i fyw, a pha gefnogaeth fedrwn ni ei chynnig i'r teuluoedd hyn.

*Aled Davies*

## Housing Justice Cymru a Sefydliad Bevan yn annog creu cartrefi ar dir eglwysig segur

Mae'r nifer uchaf erioed o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn llety dros dro – 1 ym mhob 215 o aelwydydd. Bydd llawer ohonynt yn byw mewn llety sy'n anaddas i'w hanghenion am gyfnodau hir. Yr hyn sydd ei angen arnynt yw cartref diogel, fforddiadwy. Fodd bynnag, mae yna brinder cartrefi cymdeithasol a chymunedol ac mae darparu cartrefi newydd yn broses araf. Un o nifer o rwystrau i'w cyflenwi yw diffyg safleoedd ar gael yn y mannau lle mae'r mwyaf o angen cartrefi. Mae llawer o'r tir a nodir mewn Cynlluniau Datblygu

*(parhad ar y dudalen nesaf)*


Bonhoeffer
**Tudalen 3**

O'r galon
**Tudalen 5**

Cipolwg ar genhadaeth yn Japan
**Tudalen 7**